

Rota:

Agor a Croesawu - Mae angen enwau

Paned - Bethan

Stori Plant: 6<sup>ed</sup> - Steffan  
16<sup>eg</sup> - Dafydd  
23<sup>ain</sup> - Gwydion  
30<sup>ain</sup> - Euryr

Byddwch yn ofalus yng ngwaelod y capel ar hyn o bryd,  
gan ein bod yn gwneud gwaith dros yr haf ar yr adeilad.

### Dyddiadau Pwysig ar gyfer y Dyddiadur:

- > Cyfarfod sefydlu Dewi Tudur (Talsarnau) - Mehefin 12
- > Cynhadledd Glynllifon - Gorffennaf 3<sup>ydd</sup> (Bala)
- > Gwersyll Cymraeg MEC - Awst 7-14
- > Cynhadledd MEC - Awst 17-21 (Abersytwyth)
- > Dathlu 25 mlwyddiant yr Eglwys - Awst 28<sup>ain</sup>

Edrychwch ar daflen y mis ar y wefan - [www.capelyffynnon.org](http://www.capelyffynnon.org)  
Cofiwch am flog y gweinidog - [thelandofuz.blogspot.com](http://thelandofuz.blogspot.com)

Capel y Ffynnon  
Penrallt Isaf  
Bangor

Rhif Ffon 01248 361117


E-bost [dafyddmj@gmail.com](mailto:dafyddmj@gmail.com)

Safle wê - [capelyffynnon.org](http://capelyffynnon.org)

Estyn allan yn  
Effeithiol i'r  
Gymuned gyda  
neges Berthnasol

# Capel y Ffynnon

Taflen y Mis, Mehefin, 2010



Bydd ofalus, a gwyliu'n ddyfal rhag iti anghofio'r pethau  
a welodd dy lygaid, a rhag iddynt gilio o'th feddwl holl  
ddyddiau dy fywyd; dysga hwy i'th blant ac i blant dy  
blant - Deut 4: 9

## Cyfarfodydd Mehefin

### Suliau (10y.b. a 6y.h.)

6 - Y Gweinidog (Cymun bore)

13 - Y Gweinidog

20 - Sulwyn Jones (Cymun Nos)

27 - Gwyn Davies

### Cyfarfodydd Wythnosol

#### **Dydd Llun (12.30 yn y Capel)**

7<sup>fed</sup> - Cyfarfod Gweddi Lleol

14<sup>ddeg</sup> - Cyfarfod Gweddi Lleol

21<sup>ain</sup> - Cyfarfod Gweddi Lleol

28<sup>ain</sup> - Cyfarfod Gweddi Lleol

#### **Dydd Iau (7.30 yn y Capel)**

3<sup>ydd</sup> Cyfarfod Cenhadol - Laura Sanlon

10<sup>fed</sup> Astudiaeth

17<sup>eg</sup> Cyfarfod gweddi

23,24<sup>ain</sup> Cyfarfodydd Cartref

Cyfarfod Merched - Bore Sadwrn 5<sup>ed</sup> - Tŷ Sylvia

Glanhau'r adeilad - Bore Sadwrn 19<sup>eg</sup>

Cyfarfod Dynion - angen trefnu

### **Pwyntiau Gweddi:**

- ♦ Diolch i Dduw am yr Arglwydd Iesu Grist a'i gariad tuag atom;
- ♦ Am droedigaethau – yr angen i wneud cysylltiadau â'r rhai di-gred;
- ♦ Parhau i weddio am gyfleoedd i gynnal Cwrs Darganfod Cristnogaeth;
- ♦ Cofiwch am nifer o'r eglwys sy'n mynd drwy gyfnod anodd ar hyn o bryd;
- ♦ Cofiwch Steffan a gwaith MEC dros yr Haf;
- ♦ Llythyrâu Laura Sanlon (Sbaen);

Mae hi'n gyfnod hyfryd i ni fel Eglwys ar hyn o bryd, gydag aelodau newydd yn ymuno â ni. Dros y misoedd nesaf byddwn yn clywed hanes rhai o'n haelodau newydd yn nhaflen y mis. Y mis yma, dyma dystiolaeth Bethan ...



*Fel llawer o bobl sydd wedi cael magwraeth ar aelwyd Gristnogol, rydw i wastad wedi bod yn ymwybodol o ystyr a chynnwys y Beibl. Ond pan oeddwn i tua deg oed, dwi'n cofio cyfnod o ddechrau meddwl am gwestiynau dwfn bywyd. Dechreuais ystyried go iawn a oedd Cristnogaeth yn wir, a oedd Duw yn bodoli ac a oedd bywyd ar ôl marwolaeth. Ro'n i hefyd yn sylwi ar y*

*duedd naturiol ynof i dynnu'n groes i'r ffordd o fyw ro'n i'n cael fy nysgu yn y capel, y Beibl a gan Mam a Dad.*

*Fedrai ddim dweud yn iawn pryd y des i'n gristion, ond erbyn tua deuddeg oed, ar ôl cyfnod o bendroni a gweddïo, ro'n i'n sicr mod i wedi derbyn Iesu fel gwaredwr. Dydi bywyd ddim wastad wedi mynd "according to plan" wedyn, yn rhannol gan fod y duedd i fynd fy ffordd fy hun yn dal ynof fi. Mae Duw yn gorfod dysgu fi drosodd a drosodd i beidio trio sortio pethau allan hebddo fo, ag un o'r adnodau sy wedi dod i olygu lot i fi ydi Diarhebbion 3:5-6*

*Dwi bellach yn 30 oed, ac mae'n braf medru edrych nôl a gweld y ffyrdd (od weithiau), mae Duw wedi fy arwain hyd yma, ac wedi bod efo fi trwy gyfnodau hawdd ag anodd. Erbyn hyn, a minnau ar fin dechrau cyfnod newydd fel rhiant, mae'n rhyddhad mawr gwybod y bydd Duw efo fi drwy beth bynnag sydd i ddod yn y blynyddoedd nesa hefyd.*

*- Bethan*

**Llongyfarchiadau i Huw a Rachî ar enedigaeth  
Garmon Llyr Davies!**